# Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

**Cyngor Caerdydd - Ionawr 2025**

Papur Technegol Cefndir Rhif 10

# Cynllun Adnau

## Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol




www.cdllcaerdydd.co.uk
02920 872087
CDL@caerdydd.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Cynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd 2021 i 2036

## Papur Cefndir Technegol Rhif 10

## Asesiad Safle Ymgeisiol

**Ionawr 2025**

# 1. Pwrpas y Papur hwn

Pwrpas y papur hwn yw rhoi crynodeb o'r broses o asesu'r safleoedd ymgeisiol a dderbyniwyd i benderfynu a ydynt yn cefnogi Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a pha mor addas ydynt i'w cario ymlaen i'w cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) Caerdydd.

# 2. Cefndir

Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi CDLl. Un o swyddogaethau pwysig y CDLl yw nodi strategaeth defnydd tir y Cyngor a nodi'r lefel ddisgwyliedig o ddatblygiadau yn y dyfodol a allai ddigwydd a dyrannu tir ar gyfer datblygiad o'r fath a allai ddigwydd yn ystod oes y Cynllun. Mae'r Llawlyfr CDLl (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2020) yn argymell y dylai awdurdodau cynllunio lleol ymgysylltu â datblygwyr a thirfeddianwyr ar gam casglu tystiolaeth y CDLl i gasglu gwybodaeth am safleoedd datblygu y gellid eu cynnwys yn y cynllun. Nod hyn yw helpu'r cyngor i ystyried safleoedd addas i'w cynnwys yn y CDLl ac osgoi nifer sylweddol o safleoedd anhysbys yn cael eu cyflwyno yn ystod y cam archwilio a hefyd i sicrhau y gellir darparu'r CDLl yn nhermau defnydd tir.

Er mwyn casglu gwybodaeth am safleoedd datblygu posibl, mae Rheoliadau CDLl yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Cynllunio Lleol ofyn am enwebiadau ar gyfer safleoedd, a elwir Safleoedd Ymgeisiol, i'w cynnwys yn y CDLl. Mae'r alwad am Safleoedd Ymgeisiol yn rhan bwysig o'r broses o lunio cynllun ac mae'n ofynnol ei chynnal yn gynnar yn y broses o baratoi cynllun, cyn y camau ffurfiol a chyn i'r Cynllun drafft gael ei baratoi a'i ymgynghori arno yn y cam Strategaeth a Ffefrir.

# 3. Proses Safle Ymgeisiol

## Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol

Fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLlN, gwahoddodd y Cyngor unrhyw un sydd â diddordeb mewn tir, gan gynnwys tirfeddianwyr, datblygwyr a'r cyhoedd, i gyflwyno 'Safleoedd Ymgeisiol' i'w hystyried ar gyfer datblygu, ailddatblygu neu amddiffyn yn CDLlN Caerdydd. Roedd yr alwad am Safleoedd Ymgeisiol yn cwmpasu cyfnod o 12 wythnos o 28 Mai 2021 i 20 Awst 2021.

Pwrpas gwahodd cyflwyniadau Safleoedd Ymgeisiol ar y cam hwn oedd cynorthwyo'r Cyngor i ddeall pa dir oedd ar gael i lywio'r gwaith o baratoi'r CDLlN. Cyflwynwyd cyfanswm o 62 o Safleoedd Ymgeisiol i'w datblygu/ailddatblygu a'u gwarchod, gan gwmpasu ystod o ddefnyddiau gan gynnwys; defnydd preswyl, cyflogaeth, teithio llesol a hamdden. Roedd rhaid i'r rheiny a oedd yn cynnig safleoedd gyflwyno Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol i gefnogi eu safle.

## Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol

Cyhoeddwyd y Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd yn ystod yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol mewn Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol. Nid yw'r Gofrestr yn rhan o'r CDLl Newydd ac nid yw cynnwys safleoedd yn y Gofrestr yn dangos ymrwymiad y bydd safleoedd o'r fath yn cael eu

symud ymlaen i'r CDLl Newydd. Ar ôl cyhoeddi'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, mae safleoedd ychwanegol a gyflwynwyd fel rhan o sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad ar y CDLlN wedi'u hychwanegu at y Gofrestr.

### Cyflwyno Safleoedd Newydd yn y Cyfnod Adneuo

Os hoffech gyflwyno safle newydd neu ddiwygiedig i'w ystyried gyda'ch sylwadau, dylech ddarparu

- Cynllun o'r safle, gyda ffiniau'r safle wedi'u nodi'n glir
- Manylion y defnydd arfaethedig o'r safle
- Tystiolaeth bod y safle'n cyd-fynd â Strategaeth y CDLl Newydd ac y byddai'r Cynllun yn gadarn pe bai'r safle'n cael ei gynnwys. Mae Nodyn Cyfarwyddyd ar rai o'r Asesiadau Allweddol sydd eu hangen i gefnogi safleoedd ymgeisiol newydd ar gael.
- Arfarniad Cynaliadwyedd o'r safle arfaethedig y mae'n rhaid iddo fod yn gyson â'r cwmpas, y fframwaith a lefel y manylder fel y nodir yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer CDLl Newydd Caerdydd, sydd ar gael i'w weld yn yr Ystafell Ymgynghori Rithwir https://cardiffldp.consultation.ai/

### Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol

Nod y broses asesu Safleoedd Ymgeisiol yw nodi safleoedd sy'n addas i'w dyrannu o fewn y CDLl newydd yn unol â'r angen a sefydlwyd, fel y nodir yn Strategaeth y CDLl Newydd (CDLlN).

Mae'n hanfodol bod y tir a ddyrennir i'w ddatblygu yn y CDLlN yn bodloni amcanion a gofynion y Cynllun, ei fod yn addas i'w ddatblygu a'i fod yn gallu cael ei ddatblygu. Paratowyd Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol, polisi cynllunio cenedlaethol, fel y'i cynhwysir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) a chanllawiau cenedlaethol yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3), fel y bo'n briodol ac i sicrhau bod nodi safleoedd addas i'w dyrannu yn seiliedig ar asesiad cadarn, tryloyw a chredadwy o'r tir a gyflwynwyd. Ymgynghorwyd ar Fethodoleg Safleoedd Ymgeisiol yn ystod yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol.

## 4. Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir a'r Safleoedd Ymgeisiol

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir cafodd rhanddeiliaid gyfle i wneud sylwadau ar y safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd ac roedd y sylwadau a ddaeth i law yn helpu i lywio'r cam nesaf o asesu. Cafwyd dros 5,000 o ymatebion i'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol ac fe'u bwydwyd i broses asesu'r safleoedd. Yn ogystal, cyhoeddodd ac ymgynghorodd y Cyngor ar asesiad lefel uchel cychwynnol o'r Safleoedd Ymgeisiol. Roedd Cam 1 yr Asesiad hwn yn cynnwys proses hidlo gychwynnol i nodi safleoedd:

- islaw'r trothwy
- a oedd yn cynnwys cyfyngiadau sylfaenol na ellid eu lliniaru e.e. safleoedd yng nghefn gwlad agored
- a oedd at ddefnyddiau preswyl mewn ardal perygl llifogydd C2
- a oedd yn codi materion yn ymwneud â chyflawnadwyedd
- na allant gael eu dwyn ymlaen o fewn cyfnod y cynllun a/neu

- heb dystiolaeth bod y safle'n hyfyw yn ariannol

Fodd bynnag, yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn y Cam Strategaeth a Ffefrir, penderfynwyd er budd tegwch a chyflawnrwydd y byddai'r holl safleoedd a ddaeth i law yn ddarostyngedig i'r un lefel fanwl o asesu.  Mae hyn yn sicrhau, wrth i'r Cynllun a'r dogfennau ategol gael eu cyflwyno i'w harchwilio, y bydd pob safle wedi cael ei drin yn deg ac yn gyfartal.

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Safleoedd Ymgeisiol gydag asiantaethau statudol allanol a darparwyr seilwaith, megis Dŵr Cymru a'r Grid Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent, Wales and West Utilities a Western Power Distribution, oherwydd gall datblygiadau newydd roi pwysau ychwanegol ar seilwaith presennol, megis cyflenwad dŵr, draenio, carthffosiaeth, ynni a chyfathrebu, a chyfleusterau cymunedol fel ysgolion, meddygfeydd a gofod hamdden.

Yn ogystal â chynnal asesiad manwl o'r safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd, mae'r dyraniadau presennol sy'n weddill yn y CDLl mabwysiedig nad ydynt wedi'u cyflwyno fel safleoedd ymgeisiol ac a gynigiwyd i'w cario draw i'r CDLl Newydd hefyd wedi'u cynnwys yn yr asesiad manwl hwn.

# 5. Cyfnod Adnau a'r Asesiad Manwl o'r Safleoedd Ymgeisiol

## Potensial i Gefnogi Strategaeth y CDLl Newydd

Mae pob un o'r Safleoedd Ymgeisiol wedi'i asesu yn erbyn Strategaeth y CDLl Newydd i benderfynu ar ei botensial i gefnogi'r strategaeth.

- **Twf Cyflawnadwy**
- **Datblygu Cynaliadwy, Lles a Newid yn yr Hinsawdd**
- **Creu Lleoedd, Seilwaith a Chymunedau Cydlynol**
- **Rhinweddau Amgylcheddol ac Ardaloedd i'w Gwarchod**

O ran yr Opsiynau Twf a Gofodol cafodd tri opsiwn twf eu hystyried a'u hasesu ac amlinellwyd crynodeb o'r canfyddiadau yn y Strategaeth a Ffefrir yr ymgynghorodd y Cyngor arni yn ystod Haf 2023.  Ystyriwyd bod yr Opsiwn Twf a Ffefrir (Opsiwn B) yn seiliedig ar darged anheddau dan arweiniad polisi o 1,600 o anheddau y flwyddyn yn realistig ac yn ddibynadwy.  Er mwyn cyflawni'r lefel o dwf a ffefrir, ystyriwyd ac ymgynghorwyd ar wyth Opsiwn Gofodol amgen. Ystyriwyd bod yr Opsiwn Gofodol a Ffefrir yn Strategaeth Twf Cynaliadwy, a oed dyn opsiwn hybrid sy'n adeiladu ar y dull gweithredu a nodwyd yn yr opsiynau strategol tir llwyd.  I gael rhagor o wybodaeth am yr Opsiynau Twf a Gofodol, gweler Cynllun Adneuo CDLl Newydd Caerdydd sydd ar gael ar y Bwrdd Rhithwir yn yr Ystafell Ymgynghori Rithwir.

O ran darparu cartrefi newydd ymrwymwyd i fanc tir sylweddol o gartrefi newydd eisoes ar amrywiaeth a dewis o safleoedd tir llwyd a maes glas ledled y ddinas sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth a dewis o fathau o dai a lleoliadau ar draws y ddinas.  Bydd safleoedd o'r fath yn ardaloedd adfywio ac adnewyddu mawr, wedi'u lleoli o fewn neu gerllaw canolfannau ardal neu leol, neu ar nodau trafnidiaeth o fewn yr ardaloedd trefol.  Bydd y safleoedd hyn, ynghyd â'r

banc tir sylweddol presennol o safleoedd sydd ar dir maes glas ar ymylon y ddinas. Felly, strategaeth tir llwyd yw'r Strategaeth Twf Cynaliadwy sydd, yn ogystal ag ymrwymiadau, yn ceisio bodloni'r rhan fwyaf o'r tir tai sydd ei angen yn ystod y cyfnod y cynllun hyd at 2036 drwy amrywiaeth o safleoedd tir llwyd o fewn y ffin anheddiad bresennol gan gynnwys dyraniadau safleoedd maes glas gweddilliol o safleoedd strategol y CDLl mabwysiedig (Polisi H1A), y dyraniadau tai anstrategol (Polisi H1B) a'r Ardaloedd Adfywio a Arweinir gan Dai (Polisi H2) a gynigiwyd yn y Cynllun Adneuo. O ystyried hyn, ystyrir na fydd angen rhyddhau tir maes glas newydd, a bydd twf tai pellach yn ystod cyfnod y cynllun yn dod drwy amrywiaeth o safleoedd tir llwyd o fewn y ffin anheddiad bresennol.

## Meini Prawf ar gyfer Asesu'r Safleoedd Ymgeisiol

Asesiad yn Erbyn Meini Prawf Asesu'r Safle Ymgeisiol

Defnyddiwyd y meini prawf canlynol, fel y nodir yn y papur Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol, i asesu pa mor addas yw'r safleoedd i'w cynnwys yn y CDLlN.

- **Tir** – Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd ail-ddefnyddio safleoedd tir llwyd. Felly, bydd tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn sgorio'n uwch na safleoedd maes glas. Bydd agosrwydd at aneddiadau presennol hefyd yn ystyriaeth.
- **Argaeledd, Seilwaith a Chyflawnadwyedd** – Bydd angen i'r Cyngor fod â lefel resymol o hyder y bydd y safle'n cael ei gyflawni ac nad oes unrhyw rwystrau cyfreithiol i hyn; nad oes unrhyw gyfyngiadau cyfleustod ar y safle na chyfyngiadau ffisegol a bod y safle'n cynnig y cyfle i gyflawni datrysiadau ynni adnewyddadwy a seilwaith.
- **Cyd-destun Hygyrchedd a Chludiant** - Mae polisi cenedlaethol yn nodi pwysigrwydd lleihau'r angen i deithio a datblygiadau newydd sy'n gallu manteisio ar amrywiaeth o wasanaethau allweddol. Caiff y cyd-destun cludiant a'r potensial ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy eu hasesu.
- **Amgylcheddol** - Bydd angen ystyried yr effaith bosibl ar fioamrywiaeth/daeareg, tirwedd, yr amgylchedd hanesyddol, diwylliannol ac adeiledig, adnoddau naturiol a thir halogedig, gan gynnwys effaith ar y dynodiadau canlynol: - Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Safle Ramsar, Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SoBCN). Bydd angen osgoi colli coetir/coed a gwrychoedd gwarchodedig gymaint â phosibl, a bydd angen i gynlluniau sy'n cael effaith ar ansawdd aer ddangos mesurau lliniaru priodol. • **Ffisegol** – Bydd bodolaeth cyfyngiadau ffisegol, fel perygl llifogydd a chyfyngiadau topograffig yn ffactor, ynghyd â thir amaethyddol ac ardaloedd diogelu mwynau. Rhoddir ystyriaeth ofalus i berygl llifogydd presennol a'r potensial i reoli perygl llifogydd.
- **Creu Cymdogaethau, Cymunedau a Lleoedd** – Gall rhai cynlluniau datblygu arwain at welliannau ychwanegol i'r gymdogaeth leol, gwella cyfleusterau cymunedol a chysylltedd lleol a darparu manteision cynaliadwyedd a dylunio.
- **Manteision Economaidd a Manteision Eraill** – Gall rhai cynlluniau datblygu arwain at fanteision ychwanegol i ardal, er enghraifft, darparu cyfleoedd cyflogaeth mewn ardal o ddiweithdra uchel.
- **Ffactorau Cynaliadwyedd** – A yw'r cynnig yn gwella ansawdd aer ac iechyd a lles.

## 6. Asesiad Cynaliadwyedd Integredig

Yn ogystal ag Asesiad o'r Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer y CDLl, cynhaliodd y broses statudol o Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS) asesiad o'r Safleoedd Ymgeisiol, a gynhaliwyd fel Asesiad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ehangach, gan gynnwys meysydd asesu ehangach er enghraifft Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r Safleoedd Ymgeisiol wedi cael eu hasesu yn erbyn y Fframwaith Asesiad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) sy'n helpu i sicrhau bod y safleoedd yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion cyffredinol y cynllun. Roedd y broses ACI yn pennu a oedd y safle'n cael effaith gadarnhaol, niwtral neu negyddol yng nghyd-destun amcanion yr ACI. Mae'r ACI yn asesu'r holl opsiynau rhesymol ar gyfer cynnwys safle a gyflwynwyd yn y CDLlN. Ceir crynodeb o'r asesiad ACI o safleoedd yn Atodiad 1. Mae'r Asesiad Cynaliadwyedd Integredig Terfynol llawn ar gael i'w weld ynghyd â'r Cynllun Adneuo yn yr Ystafell Ymgynghori Rithwir ar y Bwrdd Dogfennau Rhithwir.

## 7. Y Camau Nesaf

Er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar y safleoedd ymgeisiol, mae'r Cyngor yn ymgynghori'n ffurfiol ar y safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r Cynllun Adneuo. I gefnogi, gwrthwynebu neu wneud sylwadau ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, llenwch y ffurflen adborth ar ein gwefan yn Safleoedd ymgeisiol - Cyngor Caerdydd - Cynllun Datblygu Lleol. Bydd sylwadau a dderbynnir ar y Safleoedd Ymgeisiol yn cael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio fel rhan o'r archwiliad i gadernid y CDLl Newydd.

Sylwer, na ellir trin sylwadau a wneir fel rhai cyfrinachol, a dim ond sylwadau a wneir yn y cam Adneuo hwn o'r ymgynghoriad fydd yn cael eu hanfon ymlaen at yr Arolygydd Cynllunio i'w hystyried fel rhan o'r Archwiliad i gadernid y CDLlN. Nid yw sylwadau a wnaed ar gamau blaenorol yn cael eu hanfon ymlaen at yr Arolygydd Cynllunio penodedig.

# Atodiad 1: Crynodeb o'r Asesiad ACI o Safleoedd

| Mewn dynodiad lefel ryngwladol | Mewn dynodiad lefel y DU/Cymru | Anhygyrch ac eithrio mewn car (gall orgyffwrdd â dynodiadau rhyngwladol a DU/Cymru) | Mewn dynodiad lleol |
|---|---|---|---|

| ACI | Meini prawf<br>Crynodeb safle | Defnydd | MALIC | Ysgol gynradd | Ysgol uwchradd | Canolfan iechyd | Meddyg Teulu | Rhandiroedd | Hyb | HTC | Tai | Ansawdd Aer mgm | AGA / Ramsar | ACA | SoDdGA | GNL | SoBCN | Safle bws | Gorsaf drenau | Canolfan leol | Canolfan ardal | Tirwedd hanesyddol | Parciau/Gerddi | Henebion hynafol | Ardal gadwraeth | Sensitifrwydd | Cyflogaeth | Tir a ddatblygwyd | Ansawdd tir amaeth | Ardal tirwedd | Crynofa/corff dŵr | Llifogydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Allied Bakeries, Heol Maes y Coed | L | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 10 | Doc Dwyreiniol Bute | M | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Ardal Fenter Canol Caerdydd | M | 1/3/5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 52 | Parc Busnes Porth Caerdydd | M | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Dwrlyn Cottage, Heol Llantrisant | H | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 69 | Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae | T | 3 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 29 | Coed Flaxland | O | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Yr Hen Waith Nwy, Heol y Fferi | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Hen safle Coleg Sant Ioan | R | 4 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 61 | Goitre Fawr | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 32 | Heol Hadfield | R | 2 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 65 | Image House | R | 4 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Pentref Chwaraeon Rhyngwladol | M | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 38 | Tir â myn. o De Braose Cl | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 53 | Tir ger Began House | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 49 | Tir ger Cefn Eurwg | ? | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 24 | Tir yn Archer Rd | M | 4 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Tir yn Ardaloedd 9-12, Llaneirwg | H | 3 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 55 | Tir yn Heol y Bont | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 3 | Tir yn Sgwâr Callaghan | M | 3 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| ACI | Crynodeb safle (Meini prawf) | Defnydd | MALIC | Ysgol gynradd | Ysgol uwchradd | Canolfan iechyd | Meddyg Teulu | Rhandiroedd | Hyb | HTC | Tai | Ansawdd Aer mgm | AGA / Ramsar | ACA | SoDdGA | GNL | SoBCN | Safle bws | Gorsaf drenau | Canolfan leol | Canolfan ardal | Tirwedd hanesyddol | Parciau/Gerddi | Henebion hynafol | Ardal gadwraeth | Sensitifrwydd | Cyflogaeth | Tir a ddatblygwyd | Ansawdd tir amaeth | Ardal tirwedd | Crynofa/corff dŵr | Llifogydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | Tir yn Church Farm | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1 | Tir yn Heol y Tollty | M | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 80 | Tir yn Fferm y Cwm | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 47 | Tir yn Druidstone Rd | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 11 | Tir ym Melin Elái | T | 1/2 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 54 | Tir yn Fferm Goitre | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 17 | Tir yn Llys Henstaff | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 21 | Tir yn Heol Llantrisant | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 14 | Tir yn Llan-fair | M | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 81 | Tir yn Fferm Llwynioli | M | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5 | Tir yn Stryd Pen y Lanfa | T | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 66 | Tir yn Ffordd Rover | E | 3/5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 13 | Tir yn Old Forge | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 48 | Tir yn Fferm Tyla | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 43 | Tir yn Tynewydd | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 83 | Tir yn Rhodfa Gwynllŵg | E | 3 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 16 | Tir i'r Dwyrain o Croft y Genau | O | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 22 | Tir i'r Dwyrain o Heol Pant-y-Gored | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 56 | Tir i'r Gogledd o Heol y Bont | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 50 | Tir i'r Gogledd o Druidstone Road | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 7 | Tir i'r Gogledd o Sg Loudon | T | 4 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 51 | Tir i'r Gogledd-orllewin o Druidstone Rd | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 20 | Tir oddi ar Brummel Dr | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 70 | Tir oddi ar Clos Medwyn | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 84 | Tir oddi ar Forest Rd | ? | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 6 | Tir i'r De o Orsaf Caerdydd Canolog | M | 3 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 30 | Tir i'r De o Heol y Mynachdy | O | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 73 | Tir i'r De o Barc Busnes Llaneirwg | E | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| ACI | Meini prawf<br>Crynodeb safle | Defnydd | MALIC | Ysgol gynradd | Ysgol uwchradd | Canolfan iechyd | Meddyg Teulu | Rhandiroedd | Hyb | HTC | Tai | Ansawdd Aer mgm | AGA / Ramsar | ACA | SoDdGA | GNL | SoBCN | Safle bws | Gorsaf drenau | Canolfan leol | Canolfan ardal | Tirwedd hanesyddol | Parciau/Gerddi | Henebion hynafol | Ardal gadwraeth | Sensitifrwydd | Cyflogaeth | Tir a ddatblygwyd | Ansawdd tir amaeth | Ardal tirwedd | Crynofa/corff dŵr | Llifogydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 33 | Tir i'r De o'r M4 | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 62 | Tir i'r Dwyrain a'r Gorllewin o Ddraenen Pen-y-graig | L | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 57 | Tir i'r Gogledd o Heol Tŷ Draw | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 58 | Tir y tu cefn i Chartres | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 59 | Tir y tu cefn i Mainbrace | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 19 | Tir i'r De o Heol Llantrisant | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 35 | Tir i'r Gorllewin o Heol y Graig | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 39 | Maes parcio gorsaf Llandaf | O | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 77 | Dolydd Llwyn Mallt (Dolydd y Gogledd) | O | 4 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 23 | Plasdŵr Uchaf | L | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 9 | Porthladd Caerdydd | M | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4 | Porth Teigr a Phentir Alexandra | M | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | Lawnt Pengam | H | 5 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 60 | Maes parcio gorsaf Radur | O | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8 | Gogledd Doc y Rhath | M | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 15 | Robin Hill, Creigiau | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 37 | Ysbyty Rookwood | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 44 | Chwarel Ffynnon Taf | O | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 82 | Y Faenor, Druidstone Rd | R | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 45 | Chwarel Ton Mawr | O | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 76 | Canolfan Ganser Felindre | L | 4 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 79 | Gorsaf Felindre | T | 4 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 74 | Gwastatir Gwynllŵg | O | 1/3 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 78 | Ysbyty'r Eglwys Newydd | M | 4 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 75 | Clwb Tennis yr Eglwys Newydd | O | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

# Atodiad 2: Safleoedd Ymgeisiol sy'n Cefnogi Strategaeth y CDLlN

## Safleoedd Ymgeisiol sy'n cael eu Dwyn Ymlaen i'r Cynllun Adneuo. Gan Gynnwys Safleoedd Nad Ydynt yn Cael eu Hyrwyddo fel Safleoedd Ymgeisiol

- Mae Safleoedd Tai Strategol SH1.1 i SH1.6 yn ffurfio rhannau gweddilliol y Safleoedd Strategol a ddyrannwyd yn y CDLl mabwysiedig. Ystyrir ei bod yn bwysig bwrw ymlaen â'r safleoedd hyn yn y CDLlN i sicrhau y gellir darparu'r prif gynlluniau a'r seilwaith cymunedol sy'n gysylltiedig â'r safleoedd hyn. Bydd angen i'r uwchgynlluniau ystyried y mesurau lliniaru a amlinellir yn nhabl 8.4 yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI).
- Mae Safleoedd Tai Anstrategol yn ffurfio rhan bwysig o'r banc tir ac ystyrir bod angen i'r safleoedd hyn gael eu dyrannu er mwyn sicrhau y diogelir y tir i'w ddefnyddio yn y dyfodol er mwyn darparu tai. Fel yr argymhellwyd yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) y Cynllun Adneuo, bydd yn ofynnol i unrhyw gais yn y dyfodol am H1.1 Tir mewn ardaloedd 9-12 yn Llaneirwg ddarparu tystiolaeth na fydd y datblygiad yn arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd AGA / Ramsar Aber Afon Hafren o ran ei rywogaethau adar cymwys. Er mwyn dangos hyn, bydd angen arolwg i benderfynu ar y cynefinoedd a'r defnydd presennol o'r safle i wirio a yw'r parsel tir yn addas ar gyfer cefnogi poblogaeth sylweddol o rywogaethau adar dynodedig. Lle mae cynefinoedd yn addas, bydd gofyn cael arolygon o adar nad ydynt yn bridio i benderfynu a yw'r safle a'r tir cyfagos yn ffurfio ardal sylweddol o gynefin cynhaliol. Bydd angen cynnal arolygon adar yn ystod yr hydref, y gaeaf a'r gwanwyn. Os nodir bod cynefin o fewn y safle yn cefnogi poblogaethau sylweddol o rywogaethau adar dynodedig, bydd angen mesurau osgoi a lliniaru, ac mae'n debygol y bydd angen asesu'r cais cynllunio drwy Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n benodol i'r prosiect er mwyn sicrhau na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd.
- Ardaloedd Adfywio a Arweinir Gan Dai. Yn unol â'r canllawiau cenedlaethol, mae ardaloedd adfywio a arweinir gan dai yn lleiniau tir sydd naill ai'n wag, yn cael eu tanddefnyddio neu'n destun cynigion ailddatblygu, neu sydd â photensial yn y dyfodol ar gyfer datblygiad dwysedd uchel, cynaliadwy, defnydd cymysg.

| Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Ward | Enw'r Safle Ymgeisiol | Maint y Safle (Ha) | Cynnig | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Butetown | Tir yn Sgwâr Callaghan | 3.36 | Ardal adfywio a arweinir gan dai | Ardal Adfywio a Arweinir gan Dai H2.7 |
| 4 | Butetown | Porth Teigr a Phentir Alexandra | 27 | Ardal adfywio a arweinir gan dai | Ardal Adfywio a Arweinir gan Dai H2.5 |
| 8 | Butetown | Porth y Frenhines | 3.67 | Porthladd, defnydd sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd a defnydd cymysg | Ardal Adfywio a Arweinir gan Dai H2.4 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 19 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir i'r De o Heol Llantrisant (Rhan o Safle D) | 13 | Preswyl | Safle Tai Strategol SH1.4 |
| 21 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir gerllaw Heol Llantrisant (A4119), Capel Llanilltern. (Spicer, Jenkins a Pink Land) | 8.73 | Preswyl | Safle Tai Strategol SH1.5 |
| 32 | Grangetown | Marchnad Ffrwythau Cyfanwerthu, Heol Bessemer | 4.8 | Preswyl | Ardal Adfywio a Arweinir gan Dai H2.6 |
| 33 | Llys-faen a Draenen Pen-y-graig | Tir i'r De o draffordd yr M4, i'r Gorllewin o Rudry Road, Llys-faen | 4.96 | Preswyl | Safle Tai Strategol SH1.2 |
| 34 | Llys-faen a Draenen Pen-y-graig | Tir yn Church Farm | 14.16 | Preswyl | Safle Tai Strategol SH1.1 |
| 37 | Llandaf | Ysbyty Rookwood | 3.4 | Preswyl | Safle Tai Anstrategol H1.2 |
| 45 | Pentyrch a Sain Ffagan | Chwarel Ton Mawr | 12 | Estyniad i'r chwarel | Dyraniad yn y CDLl mabwysiedig |
| 52 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | Parc Busnes Porth Caerdydd | 6.4 | Defnydd Cymysg | Ardal Adfywio a Arweinir gan Dai H2.3 |
| 57 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | Tir i'r gogledd o Tŷ-Draw Road | 15.33 | Preswyl | Safle Tai Strategol SH1.3 |
| 76 | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais | Canolfan Ganser Felindre | 4 | Defnydd Cymysg | Ardal Adfywio a Arweinir gan Dai H2.2 |
| 78 | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais | Ysbyty'r Eglwys Newydd | 22.2 | Defnydd Cymysg | Ardal Adfywio a Arweinir gan Dai H2.2 |
| 81 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir yn Fferm Llwynioli, i'r gogledd o Gyffordd 33 | 3.4 ha | Preswyl | Safle Tai Strategol SH1.6 |

## Safleoedd Nad Ydynt yn Cael eu Cyflwyno fel Safle Ymgeisiol a'u Dwyn Ymlaen i'r Cynllun

| Cyfeirnod Safle CDLlN | Ward | Enw'r Safle Ymgeisiol | Maint y Safle (Ha) | Cynnig | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| H1.1 | Llaneirwg | Tir yn Ardaloedd 9-11, Llaneirwg | 3.98 | Preswyl | Safle Tai Anstrategol H1.1 |
| SH1.7 | Grangetown | Hen Waith Nwy Heol y Fferi | 3.98 | Preswyl | Safle Tai Strategol SH1.7 |
| H2.1 | Butetown | Pentref Chwaraeon Rhyngwladol | 5.88 | Preswyl | Ardal Adfywio a Arweinir gan Dai H2.1 |
| EC1 | Butetown | Ardal Fenter Canol Caerdydd | 56.7 | Defnydd Cymysg | |
| H11 | Y Sblot | Estyniad arfaethedig i Ffordd Rover | 6.8 | Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | |

## Safleoedd sy'n Cefnogi Strategaeth y CDLlN ond Nad Ydynt yn cael eu Dwyn Ymlaen i'r Cynllun

Gall safleoedd ymgeisiol tir llwyd o fewn ffin yr anheddiad sydd mewn egwyddor yn cefnogi Strategaeth y CDLlN, ond nid ydynt wedi cael eu dwyn ymlaen i'r Cynllun Adneuo, gael eu hystyried drwy'r broses rheoli datblygu.

| Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Ward | Enw'r Safle Ymgeisiol | Maint y Safle (Ha) | Cynnig |
|---|---|---|---|---|
| 6 | Butetown | Tir i'r de o Orsaf Caerdydd Canolog (Maes Parcio) | 1.0 | Defnydd Cymysg |
| 10 | Butetown | Doc Dwyreiniol Bute | 9.52 | Defnydd Cymysg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 30 | Gabalfa | Tir i'r de o Heol y Mynachdy, Gabalfa | 1.8 | Defnydd Cymysg |
| 65/68 | Y Sblot | Image House, Stryd Tyndall Ddwyreiniol | 0.33 | Defnydd Cymysg / Tai Fforddiadwy |
| 66 | Y Sblot | Tir yn Ffordd Rover, Lawnt Pengam | 21 | Cyflogaeth |

# Atodiad 3 Safleoedd Ymgeisiol Nad Ydynt yn Ymateb yn Llwyddiannus i Strategaeth y CDLlN

O ystyried y Strategaeth, nid oes angen nodi safleoedd Maes Glas, y tu allan i ffin yr aneddiadau wedi'u lleoli o fewn y Lletem Las, fel y nodwyd yn y CDLl mabwysiedig a Lletem Las y CDLlN a CDLl mabwysiedig ac Ardal Tirwedd Arbennig ddiwygiedig y CDLlN

| Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Ward | Enw'r Safle Ymgeisiol | Maint y Safle (Ha) | Cynnig |
|---|---|---|---|---|
| 13 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir yn yr Old Forge, Capel Llanilltern | 1.2 | Preswyl |
| 15 | Pentyrch a Sain Ffagan | Robin Hill, Creigiau | 0.4 | Preswyl |
| 20 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir oddi ar Brummell Drive, Creigiau | 10.5 | Preswyl |
| 22 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir i'r Dwyrain o Heol Pant-Y-Gored, Creigiau | 5.3 | Preswyl |
| 35 | Llys-faen a Draenen Pen-y-graig | Tir i'r Gorllewin o Graig Road ac i'r Gogledd o'r M4 | 13.2 | Preswyl |
| 43 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir yn Nhŷ-newydd, Heol Fawr, Gwaelod-y-Garth | 0.4 | Preswyl |
| 62 | Rhiwbeina | Tir i'r Dwyrain a'r Gorllewin o Heol Draenen Pen-y-graig ac i'r Gogledd a'r De o Capel Gwilym Road | 164 | Preswyl |
| 80 | Radur a Phentre-poeth | Tir yn Fferm Cwm, Pentre-poeth | 29.22 | Preswyl |
| 84 | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais | Tir oddi ar Heol y Fforest, Tongwynlais | 7 | Preswyl |

O ystyried y Strategaeth nid oes angen nodi safleoedd Maes Glas, y tu allan i'r ffin anheddiad nad ydynt yn cefnogi'r Strategaeth

| Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Ward | Enw’r Safle Ymgeisiol | Maint y Safle (Ha) | Cynnig |
|---|---|---|---|---|
| 14 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir yn Llanfair, Cyffordd 33 | 9 | Preswyl |
| 17 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir yn Llys Henstaff | 41 | Preswyl |
| 21 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir gerllaw Heol Llantrisant (A4119), Capel Llanilltern. (Spicer, Jenkins a Pink Land) | 22.27 | Preswyl - Gweddill y safle ymgeisiol sydd y tu allan i Safle Tai Strategol D y CDLl mabwysiedig. |
| 23 | Pentyrch a Sain Ffagan | Plasdŵr Uchaf | 144 | Preswyl |
| 24 | Trelái | Tir yn Heol Archer, Gogledd Trelái | 4.7 | Preswyl |
| 48 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | Tir ar Fferm Tyla, Tyla Lane | 5.3 | Preswyl |
| 50 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | Tir i'r gogledd o Druidstone Road | 1.6 | Preswyl |
| 51 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | Tir i'r gogledd-orllewin o Druidstone Road | 5 | Preswyl |
| 54 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | Tir yn Fferm Goitre, Llaneirwg | 13 | Defnydd cymysg |
| 55 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | Tir yn Heol y Bont, Pentref Llaneirwg | 8.3 | Preswyl |
| 56 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | Tir i’r gogledd o Heol y Bont, Pentref Llaneirwg, Caerdydd | 1.2 | Preswyl |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 58 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | Tir y tu ôl i Charters, i'r Gogledd o Druidstone Road | 0.7 | Preswyl |
| 59 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | Tir y tu ôl i Mainbrace, Druidstone Road | 0.9 | Preswyl |
| 61 | Radur a Phentre-poeth | Goitre Fawr, Plasdŵr | 57 | Defnydd Cymysg |
| 70 | Trowbridge | Tir oddi ar Glos Medwy, Pentref Llaneirwg | 0.6 | Preswyl |
| 83 | Trowbridge | Tir yng Ngwynllŵg | 14.6 | Cyflogaeth |
| 86 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir ger Dwrlyn Cottage, Capel Llanilltern | 0.3 | Preswyl |

# Atodiad 4: Safleoedd Ymgeisiol sy'n Cael eu Hystyried yn Fwy Priodol o dan Fecanweithiau Ar Wahân

## Cynigion Ffin Anheddiad

Mae cynigion ar gyfer diwygio ffiniau aneddiadau yn cael eu hystyried yn fwy priodol yn unol â pholisi cenedlaethol ac yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad ffiniau aneddiadau a gynhaliwyd i hysbysu'r CDLlN ar Adnau.

| Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Ward | Enw'r Safle Ymgeisiol | Maint y Safle (Ha) | Cynnig |
|---|---|---|---|---|
| 49 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | Tir gerllaw Cefn Eurwg, Druidstone Road | 0.1 | Diwygio ffin anheddiad i gynnwys safle preswyl |
| 53 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | Tir gerllaw Tŷ Began | 0.1 | Diwygio ffin anheddiad i gynnwys safle preswyl |
| 82 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | The Manor, Druidstone Road | 0.44 | Diwygio ffin anheddiad i gynnwys safle preswyl |

## Cynigion Chwaraeon / Hamdden a Mannau Agored / Mannau Gwyrdd Cymunedol

Bydd cynigion ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden yn cael eu cynnwys yn y CDLl Newydd yn unol â pholisi cenedlaethol a byddant yn destun eu hasesiadau ar wahân eu hunain.

| Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Ward | Enw'r Safle Ymgeisiol | Maint y Safle (Ha) | Cynnig |
|---|---|---|---|---|
| 16 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir i'r dwyrain o Croft y Genau Road ac i'r de o Heol Pentre-baen | 6.1 | Caeau Chwarae |
| 29 | Gabalfa | Coed Flaxland | 0.25 | Mannau Gwyrdd Cymunedol |
| 75 | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais | Clwb Tennis yr Eglwys Newydd | 0.67 | Cyfleuster chwaraeon, cyfleuster cymunedol, man agored |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Butetown | Dolydd Red House, PChRh | | Cadw SoBCN ac integreiddio'r safle i'r cynllun strategol ehangach |
| | Llandaf | Y Fram | | Gwarchod ar gyfer iechyd a lles y gymuned |
| | Grangetown | Y Marl | | Man agored cyhoeddus |
| | Butetown | Parc Britannia | | Man agored cyhoeddus hanfodol a chanopi coed |
| | Butetown | Parc Hamadryad | | Man agored cyhoeddus hanfodol a chanopi coed |
| | | Coed a Dolydd Nant Fawr | | Gwarchod ar gyfer bioamrywiaeth ac iechyd a lles |
| | Danescourt | Coed a Dolydd Danescourt | | Gwarchod ar gyfer bioamrywiaeth ac iechyd a lles |
| | Trelái | Maes Hamdden Trelái | | Iechyd a lles y gymuned |
| | Gabalfa | Coed Gabalfa | | Adnoddau cymunedol a choridor i fywyd gwyllt |
| | Y Sblot | Parc y Morfa | | Man agored cyhoeddus hanfodol a chanopi coed |
| | Maendy | Parc a Felodrom Maendy | | Man agored a hamdden |
| | Pentwyn | Y Drain Gwynion | | Mannau Agored |
| | Glan-yr-afon | Coedlan Penhill | | Bioamrywiaeth ac ansawdd aer |
| | Radur | Goetre Fawr | | Bioamrywiaeth ac iechyd a lles |
| | Y Sblot | Ysgol Uwchradd Willows | | Coedwig gymunedol |

## Cynigion Trafnidiaeth

Bydd cynigion Trafnidiaeth yn cael eu cynnwys yn y CDLl Newydd yn unol â pholisi cenedlaethol a byddant yn destun eu hasesiadau a'u hymgyngoriadau ar wahân eu hunain.

| Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Ward | Enw'r Safle Ymgeisiol | Maint y Safle (Ha) | Cynnig |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Butetown | Tir yn Stryd Pen y Lanfa (Porth Teigr) | 0.9 | Diogelu'r coridor ar gyfer estyniad posibl i linell y bae yn y dyfodol. |
| 11 | Treganna | Tir yn Ely Mill a Pharc Fictoria | 0.25 | Gorsaf newydd, platfformau a mynediad iddynt |
| 39 | Ystum Taf | Maes Parcio Gorsaf Llandaf | 0.5 | Defnydd Cymysg |
| 60 | Radur a Phentre-poeth | Maes Parcio Gorsaf Radur | 0.9 | Defnydd Cymysg |
| 69 | Y Sblot | Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae | 80 | Llwybr Teithio Llesol |
| 74 | Trowbridge | Gwastadeddau Gwynllŵg - SoDdGA Rhymni a Llan-bedr Gwynllŵg | 5700 | Bioamrywiaeth a theithio llesol |
| 79 | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais | Gorsaf Felindre | 1 | Gorsaf Metro newydd |

## Safleoedd yr Ymdrinnir â Hwy yn Fwy Priodol fel Ystyriaethau Polisi

Safle sy'n Ymwneud â Defnydd Porthladdoedd a Defnydd Cymysg

| Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Ward | Enw'r Safle Ymgeisiol | Maint y Safle (Ha) | Cynnig |
|---|---|---|---|---|
| 9 | Butetown | Porthladd Caerdydd | 289.3 | Porthladd, defnydd sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd a defnydd cymysg |

Safle sy'n Ceisio Mwy o Hyblygrwydd

| Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Ward | Enw'r Safle Ymgeisiol | Maint y Safle (Ha) | Cynnig |
|---|---|---|---|---|
| 85 | Y Mynydd Bychan | Allied Bakeries, Heol Maes y Coed | 2.7 | Ceisio sicrhau amddiffyniad parhaus ar gyfer cyflogaeth, ond yn ceisio hyblygrwydd ar gyfer potensial hirdymor i ailddatblygu'r safle |

## Safleoedd sydd â Chaniatâd Cynllunio Cyfredol

| Cyfeirnod Safle Ymgeisiol | Ward | Enw'r Safle Ymgeisiol | Maint y Safle (Ha) | Cynnig | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cathays | Tir yn Heol y Tollty | 0.009 | Defnydd Cymysg | |
| 7 | Butetown | Tir i'r gogledd o Sgwâr Loudon | 0.25 | Gorsaf newydd, platfformau a | Wrthi'n adeiladu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | defnyddiau ategol posibl (Dosbarthiadau A1/A3) | |
| 18 | Pentyrch a Sain Ffagan | Tir i'r de o Greigiau | 38.9 | Preswyl | Safle'n rhan o Safle Strategol A yn y CDLl mabwysiedig |
| 44 | Pentyrch a Sain Ffagan | Chwarel Ffynnon Taf | 4.6 | Estyniad i'r chwarel | |
| 73 | Trowbridge | Tir i'r De o Barc Busnes Llaneirwg: Llyn yr Hendre | 80.2 | Cyflogaeth (Parc Busnes), canolfan drafnidiaeth a defnyddiau atodol | Yn dilyn galw i mewn gan weinidogion cynllunio, rhoddwyd caniatâd i'r safle |
| 77 | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais | Dolydd Llwyn Mallt (Dolydd y Gogledd) | 9.3 | Mannau gwyrdd cymunedol | Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y Ganolfan Ganser newydd ym mis Mawrth 2018 ac mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo |

## Safle a wrthodwyd Caniatâd Cynllunio iddo yn ddiweddar

| **Cyfeirnod Safle Ymgeisiol** | **Ward** | **Enw'r Safle Ymgeisiol** | **Maint y Safle (Ha)** | **Cynnig** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|
| 38 | Llandaf | Tir wedi'i gyrchu o De Braose Close, Danescourt | 2.88 | Preswyl | Cafodd y cais am ddatblygiad preswyl ar y safle hwn (20/00187/MJR) ei wrthod oherwydd ei leoliad o fewn ardal o fan agored a nodwyd, a fydd yn gwaethygu diffygion presennol o fewn ward Llandaf ac achosi niwed annerbyniol i gymeriad ac ymddangosiad sefydledig y coetir |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | aeddfed a'r rhwydwaith llwybr troed cyhoeddus na ellir eu lliniaru, a'r diffyg cysylltedd i ddarparu llwybr diogel ar gyfer beicio a cherdded i siopau a chyfleusterau lleol. |